| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **9 CHWEFROR 2026** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD BUDDSODDI CYFRIFOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **DERBYN A NODI Y WYBODAETH** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Mae diweddariad Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar gyfer chwarter sy'n dod i ben 30 Mehefin 2025 wedi ei baratoi gan Ymgynghorwyr Goruchwylio PPC (Hymans Robertson) ar y cyd â PPC.

**1.2** Mae'r diweddariad Buddsoddi Cyfrifol chwarterol hwn yn nodi gweithgaredd diweddar o fewn y maes buddsoddi cyfrifol a gwybodaeth am yr is-gronfeydd canlynol y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt: Global Growth; Global Opportunities; Emerging Markets; Sustainable Active Equity; Global Credit; Multi-Asset Credit; Absolute-Return Bond.

## 2. GWEITHGAREDD DIWEDDAR

**2.1** **Esblygiad Mandadau Goddefol**: Mae saith cronfa a oedd wedi buddsoddi o fewn y cronfa BlackRock ACS Low Carbon wedi symud y buddsoddiadau i'r Aquila Life WPP World ESG Insights Equity Fund, sydd rwan wedi lawnsio. Mae Robeco a BlackRock wedi bod mewn cyswllt gyda'i gilydd i sicrhau bod y drefn briodol ar gyfer dewisiadau pleidleisio yn cael ei weithredu ar gyfer y gronfa pwrpasol yma.

**2.2** **Cod Stiwardiaeth**: Cyflwynodd PPC ei bumed adroddiad Cod Stiwardiaeth FRC DU, yn unol â'r dyddiad cau diwedd mis Hydref 2025.

**2.3** **Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR)**: Mae'r adroddiad yn y broses o gael ei gwblhau.

**2.4** **Adroddiad effaith**: Mae'r Good Economy yn ymgymryd ag adroddiad effaith Cymru gyfan sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at diwedd mis Mawrth 2025. Mae PPC wedi partneru gyda The Good Economy i gynnal yr adroddiadau yn flynyddol yn y dyfodol.

**2.5** **Themâu stiwardiaeth:** Cyflwynwyd canlyniadau cychwynnol holiadur themâu stiwardiaeth PPC sydd wedi ei rhannu am sylwadau gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol, Gweithgor Buddsoddi Cyfrifol, a paneli cleientiaid Robeco. Darperir rhagor o wybodaeth y chwarter nesaf.

## 3. TROSOLWG O'R ADRODDIAD

**3.1** **Crynodeb o Stiwardiaeth-** Mae PPC yn cyflogi Robeco fel ei ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, gyda Robeco yn pleidleisio ar benderfyniadau ar draws pum Is-Gronfa ecwiti gweithredol PPC, tra hefyd yn darparu'r swyddogaeth ymgysylltu â chyhoeddwyr ar draws yr holl is-gronfeydd gweithredol, yn ogystal â'r mandadau goddefol. Bydd y bleidlais yn cael ei gymhwyso i'r gronfa newydd *Aquila Life WPP World ESG Insights Equity Fund* o Ch4 25.

Ceir crynodeb o'r gweithgaredd stiwardiaeth yn yr adroddiad gyda'r gwaith a wnaed hefyd gan LAPFF.

**3.2 Adolygiadau Is- Gronfeydd**

Cynhelir adolygiad ar yr is-gronfeydd o fewn y meysydd canlynol:

- Nodweddion Allweddol
- Metrigau Hinsawdd
- Metrigau ESG
- Crynodeb o'r Pledleisiau
- Pledleisiau Allweddol
- Crynodeb Ymgysylltu
- Ymgysylltiadau Effeithiol Wedi Cau
- Ymgysylltiadau Nad Ydynt yn Effeithiol Wedi Cau
- Astudiaethau Achos

Mae'r adroddiad yn dangos bod llawer iawn o waith wedi'i wneud o fewn yr is-gronfeydd hyn i adrodd ei gryfderau ESG ac adroddiadau stiwardiaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn feincnod defnyddiol ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.